PEMBROKE TOWN WALLS TRUST



# Haf 2024

Funded by UK Government — Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO
POWERED BY LEVELLING UP

## Cynlluniau Tymor Hir yn dechrau o'r diwedd

Mae Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro wrth eu boddau o ddeall bod grant o £208,983 o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'i gymeradwyo at ein defnydd er mwyn gwireddu ein Cynllun Rheoli tymor hir. Gyda chefnogaeth barhaus penseiri Penfro, Acanthus Holden, rydym yn barod i ddechrau adfer rhan o'r llenfuriau sy'n wynebu Llwybr Llyn y Felin.



Byddwn yn datblygu a gwella ansawdd yr hyfforddiant rydym yn ei gynnig, ac yn sicrhau y gwna'r gymuned chwarae rhan weithredol wrth ddiogelu ei threftadaeth hynod o arbennig. A bydd gennym gymorth The Round House, ymgynghoriaeth busnes lleol, er mwyn dechrau datblygu ac ymestyn Treftadaeth Adeiledig Sir Benfro CIC, sydd wedi'i sefydlu i ddarparu hyfforddiant, profiad gwaith a chyflogaeth leol mewn sgiliau adeiladu treftadaeth. Bydd y prosiect yn cael ei reoli unwaith eto gan Wasanaethau Ymgynghori Chris Atherton o Gaerdydd. Trwy gydweithio'n glos gyda'n partneriaid tymor hir, Canolfan Tywi yn Llandeilo, byddwn yn medru cynnig rhaglen ehangach o hyfforddiant mewn gwaith carreg treftadaeth, nid yn unig ar gyfer myfyrwyr o Goleg Sir Benfro, ond hefyd ar gyfer perchnogion muriau, trigolion lleol ac adeiladwyr proffesiynol. Rydym eisoes wedi cychwyn trwy ddarparu cwrs pythefnos i gyflwyno gwaith carreg traddodiadol i bump arall o fyfyrwyr Lefel 1 yn y coleg. Roedden nhw'n hynod o ffodus o gael eu hyfforddi gan Oliver Coe, saer maen lleol o fri, a chael gweithio ar ran o furiau hanesyddol y dref.

Canolfan Tywi Centre

For more information on the UK Shared Prosperity Fund, which is a central pillar of the UK Government's Levelling Up agenda, aiming to improve pride in place and increase life chances across the UK by investing in communities and place, supporting local businesses and people and skills, visit https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mae Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro wedi derbyn grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o £9,720 ar gyfer *Muriau Tref Penfro a Thu Hwnt*, sef prosiect ar gyfer dechrau gweithio yn agosach o lawer gyda'r gymuned er mwyn adfer y muriau. Bydd rhaglen o ymwneud cymunedol yn dechrau dros yr haf yn cyflwyno cyrsiau byr i berchnogion muriau a'r gymuned leol. Byddwn yn mynychu amrediad o achlysuron lleol a rhanbarthol er mwyn cyfarfod ag aelodau o'r gymuned leol ac i ymwneud ag eraill sy'n gweithio ym maes treftadaeth. Rydym yn cynllunio rhaglen o deithiau tywys, sgyrsiau, achlysuron a gweithgareddau wedi'u bwriadu i annog y gymuned yn lleol i gymryd rhan weithredol eu hunain. Dywedodd Andrew White, Cyfarwyddwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru: "Rydym yn falch o fedru neilltuo'r arian hwn i alluogi pobl De Sir Benfro i gymryd rhan weithredol i ddiogelu treftadaeth eu cymuned. Mae hwn yn enghraifft arbennig o'r effaith mae treftadaeth yn ei gael ar fywydau pobl a'r modd y mae dod ynghyd yn llesol i bawb."

**Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro**
d/o Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri, Ffordd Oren, Penfro SA71 4DR
CIO Cofrestrwyd yng Nghymru Rhif 1157626
pembroketwt@gmail.com www.pembroketownwallstrust.org.uk—Facebook @pembroketownwallstrust

# Gofalu am ein treftadaeth

Byddwn yn cynnig amrediad o gyrsiau am ddim dros y misoedd nesaf ar gyfer pobl sy'n berchen ar adeiladau hanesyddol, a'r rheiny sy'n gofalu amdanyn nhw - gwarchodwyr ein treftadaeth adeileddol ryfeddol! Tra byddwn yn gobeithio y gwna perchnogion muriau'r dref gymryd mantais o'n cynnig, mae yna hefyd llawer iawn o eiddo wedi'u codi cyn 1919 o amgylch Sir Benfro y dylid gofalu amdanyn nhw, o ran eu dyfodol yn ogystal â'u gorffennol. Mae'r cyrsiau wedi'u llunio ac fe'u cyflwynir gan Ganolfan Tywi sy'n nodedig am roi hyfforddiant a chyngor o ran sgiliau adeiladu treftadaeth. Cynhelir y mwyafrif o'r cyrsiau yn Nhŷ'r Ffowndri ar Gomin Penfro tra bydd un neu ddau ar-lein. Byddwch yn medru cadw lle trwy Eventbrite ar ein gwefan neu ffesbwc neu trwy ein he-bostio pembroketwt@gmail.com

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 8fed Mai 10am-4pm | Canllaw ar gyfer trwsio angenrheidiol a chynnal a chadw eich eiddo hanesyddol - ar gyfer perchnogion eiddo | Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri |
| Dydd Llun 9fed a Dydd Mawrth 10fed Medi—10am y ddau ddiwrnod | Gwobr Lefel 3 mewn Trwsio a Chynnal a Chadw Adeiladau Traddodiadol (cyn 1919) – ar gyfer Adeiladwyr Proffesiynol | Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri |
| Dydd Mercher 18fed Medi | Caniatâd Adeilad Rhestredig — Canllaw Cam wrth Gam – ar gyfer perchnogion eiddo | Ar-lein |
| Dydd Llun 7fed a Dydd Mawrth 8fed Hydref—10am y ddau ddiwrnod | Gwobr Lefel 3 mewn Trwsio a Chynnal a Chadw Adeiladau Traddodiadol – ar gyfer Adeiladwyr Proffesiynol | Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri |
| Dydd Mercher 30ain Hydref—10am-4pm | Asesiad Effaith Treftadaeth — ar gyfer Adeiladwyr Proffesiynol | Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri |
| Dydd Llun 18fed Tachwedd —10am-4pm | Canllaw ar gyfer trwsio angenrheidiol a chynnal a chadw eich eiddo hanesyddol – ar gyfer perchnogion eiddo | Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri |
| I'w gyhoeddi | Delio â Chalch — ar gyfer Adeiladwyr Proffesiynol | |

## Diolch i chi .....

Cawsom lawer o gymorth gan y gymuned yn ddiweddar - daeth pobl i gynorthwyo i lanhau'r muriau yn barod ar gyfer ein hyfforddiant eleni.



A daeth llawer o bobl leol â cherrig nad oedd eu hangen arnyn nhw i'w defnyddio yn yr hyfforddiant.

Yn ddiweddarach eleni byddwn yn dechrau trwsio rhannau o furiau'r gogledd ar hyd llwybr Llyn y Felin a bydd angen llawer mwy o gerrig.

Os oes gennych gerrig yn eich gardd neu hen wal nad oes ei hangen arnoch mwyach – cysylltwch â ni i ddweud. Fe ddaw rhywun i'w gweld nhw a'u casglu os bernir eu bod yn ddefnyddiol. Diolch!

## Sut fedrwch chi helpu?

Mae yna nifer o ffyrdd y medrwch chi gymryd rhan yng ngwaith YMTP a'n cynorthwyo ni i ofalu am ein treftadaeth arbennig.

- Ymaelodi / gwirfoddoli neu fod yn Ymddiriedolwr
- Cynorthwyo gyda'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- Arolygu a glanhau graffiti oddi ar y muriau a gwaredu gordyfiant
- Cynorthwyo gyda'r hyfforddiant - dysgu sut i adfer a thrwsio'r muriau
- Darparu teithiau tywys a sgyrsiau am y muriau
- Cynorthwyo mewn achlysuron - trefnu stondinau mewn sioeau lleol, ymwneud â'r cyhoedd er mwyn sôn am ein gwaith a hanes Penfro
- Denu aelodau
- Dosbarthu taflennu
- Marchnata - gwerthu mapiau, pennau, cardiau post
- Denu rhoddion a chodi arian

..... a llawer mwy.

Rydyn ni'n fwy o lawer na dim ond muriau.